**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Hefin David AS
Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu
Drwy e-bost

23 Mai 2024

Annwyl Hefin,

Comisiwn y Senedd: Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

Rydym yn ddiolchgar i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 22 Mai ac am y wybodaeth fanwl a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r llythyr atodol, a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 16 Mai.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon mewn egwyddor ar yr amrywiad cyffredinol y gofynnwyd amdano i gyllideb y Comisiwn o £635,000, yn amodol ar gynnig Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru. Fe'n sicrhawyd hefyd mai'r targed a gyllidebwyd ar gyfer arbedion arfaethedig, sef £315,000, yw'r mwyaf y gall y Comisiwn ei gyflawni heb effeithio ar wasanaethau.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi argymell yn barhaus bod y Comisiwn, yn yr un modd â Chyrff eraill a Ariennir yn Uniongyrchol, yn ceisio gwella prosesau a chreu arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, a chredwn fod y dull hwn wedi'i fabwysiadu yn yr achos hwn.

Er nad yw'n briodol i'r Pwyllgor lunio barn am faterion gweithredol, megis lefelau cyflog staff, mae gennym ddiddordeb naturiol yn effaith gyllidebol y penderfyniadau hynny, yn enwedig pan fyddant yn arwain at geisiadau am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y ffordd y caiff arbedion eu nodi yn ystod y flwyddyn ac effaith y rheini ar wasanaethau a'r staff sy'n eu cefnogi.

O ganlyniad, rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgysylltu ag Aelodau ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu blaenoriaethau a bod modd eu rheoli o fewn yr adnoddau presennol.

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi gwneud dau argymhelliad yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yn ymwneud ag effaith gyllidebol cytundeb cyflog, gan gynnwys unrhyw ddyfarniadau cyflog anghylchol, a oedd yn galw ar y Comisiwn i roi diweddariadau

rheolaidd am benderfyniadau sy’n cael eu gwneud mewn perthynas â chyflogau staff y Comisiwn ar gyfer 2024-25. Rydym yn ddiolchgar i chi am ymateb yn gadarnhaol i’r ceisiadau hynny, ac yn gofyn ichi barhau i rannu gwybodaeth am y mater hwn cyn gynted ag y bydd y trafodaethau perthnasol ynghylch cyflogau ar gyfer 2025-26 ymlaen wedi dod i ben.

Bydd y Pwyllgor yn gosod ei adroddiad ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 gerbron y Senedd cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf. Byddem yn ddiolchgar felly am gael ymateb i'r pwyntiau uchod erbyn dydd Gwener 21 Mehefin.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.